



Llywodraeth Cymru Ymgynghoriad – crynodeb o ymatebion

Adroddiad Cwmpasu Drafft ar y Gwerthusiad Cynaliadwyedd
Integredig ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Wedi'i ddiweddaru Medi 2018

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Cynnwys

Rhif Tudalen

- Cyflwyniad 1
- Beth oedd o dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn? 1
- Manylion yr ymgynghoriad 1
- Y camau nesaf 2
- Dadansoddiad ystadegol a throsolwg o'r ymatebion i bob cwestiwn 4

- Atodiad 1
 - Tabl o ymatebion i'r ymgynghoriad 23
 - Tabl o ymatebion i'r ymgynghoriad - Atodiadau i sylwadau 142

Cyflwyniad

1. Dyma fersiwn wedi'i ddiweddarau o'r crynodeb o'r ymateb adroddiad ymgynghoriad i ddechrau ym mis Ionawr 2018; mae'n cyfuno'r holl sylwadau a gafwyd i'r ymgynghoriad. Daeth i'n sylw fod nifer fach o gynrychiolaethau a dderbyniwyd heb gael eu adolygu ar yr un pryd a'r rhai gwreiddiol. Bellach rydym wedi adolygu'r holl ymatebion yn yr un modd ac fe'i nodir yn y fersiwn hwn o'r adroddiad.
2. Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori 12 wythnos ynghylch adroddiad drafft o'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol rhwng 28 Ebrill 2017 a 21 Gorffennaf 2017. Mae'r adroddiad cryno hwn ar yr ymgynghoriad yn nodi'r sylwadau ar yr ymarfer ymgynghori ac ymatebion Llywodraeth Cymru, ac yn amlinellu'r camau nesaf.

Beth oedd o dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn?

3. Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio safbwyntiau ar yr Adroddiad Cwmpasu Drafft ar y Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Yr Adroddiad Cwmpasu Drafft yw'r cam cyntaf yn y Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Roedd hwn yn ymgynghoriad pwysig oherwydd y bydd yn llywio'r gwaith o ddatblygu'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol o'u camau cynnar.

Manylion yr ymgynghoriad

4. Cysylltwyd â rhanddeiliaid o restr ymgynghori graidd a gedwir gan Gyfarwyddiaeth Cynllunio Llywodraeth Cymru a hefyd trwy newyddlen y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Roedd y rhanddeiliaid hyn yn cynnwys yr holl awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru, ynghyd â chyrff cyhoeddus, busnesau, grwpiau diddordeb arbennig a chyrff proffesiynol perthnasol. Cafodd y dogfennau ymgynghori eu gwneud ar gael hefyd ar wefan ymgynghori Llywodraeth Cymru. Hefyd, cafodd y dogfennau ymgynghori eu gwneud ar gael i bawb ar wefan Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd gweithdy ar 2 Mai 2017 fel rhan o'r ymgynghoriad ar yr Adroddiad Cwmpasu drafft, a oedd yn galluogi rhanddeiliaid i drafod ac i helpu i lunio'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig.
5. Derbyniwyd sylwadau ar yr ymgynghoriad gan gyfanswm o 35 o randdeiliaid:
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
 - Cyngor Dinas Caerdydd
 - Cyngor Dinas Casnewydd
 - Cyfoeth Naturiol Cymru
 - Cadw
 - Dau unigolyn

- Dyfodol i'r laith
- Cyngor Cymuned Mochdre gyda Phenystyriwaid
- Cyngor Tref Llandudno
- Pupils2Parliament
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Cyd-ymateb gan Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru, y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Amgylcheddol yng Nghymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Tri awdurdod parc cenedlaethol
- Accessible Retail
- Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
- Glandŵr Cymru
- Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi
- Age Cymru
- Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru
- Cyngor Tref y Barri
- Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Valpak Limited
- Cyngor Tref y Drenewydd a Llanllwchaearn
- Tidal Lagoon Power
- Persimmon Homes Dwyrain Cymru
- Cymdeithas Frenhinol y Penseiri yng Nghymru (Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain)
- Cymdeithas Cynnyrch Mwynol
- Tai Cymunedol Cymru
- Ymddiriedolaethau Bywyd Gwylt Cymru
- Sustrans Cymru
- Persimmon Homes Gorllewin Cymru
- Cyngor Tref Maesteg;
- Cyngor Cymuned Carew;
- Cymdeithas Tai Hanes

6. Mae'r holl sylwadau wedi cael eu hystyried yn llawn. Mae ymatebion Llywodraeth Cymru i'r sylwadau a wnaed, a sut maent wedi llunio'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig, yn cael eu cofnodi a'u cyflwyno o fewn yr adroddiad cryno hwn ar yr ymgynghoriad yn Atodiad 1.

Y camau nesaf

7. Mae Adroddiad Cwmpasu ar y Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig, fel y'i diwygiwyd o'r ymgynghoriad, wedi cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad cryno hwn ar yr ymgynghoriad.
8. Cafwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Materion, Opsiynau ac Opsiwn a Ffefrir ar gyfer yr Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ym mis Ebrill 2018.

9. Bydd y materion, yr opsiynau a'r opsiwn a ffefrir yn cael eu hasesu gan ddefnyddio fframwaith y Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig yn yr Adroddiad Cwmpasu, a bydd adroddiad interim ar y Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig yn amlinellu manylion yr asesiad hwn. Bydd yr adroddiad interim ar y Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig yn gwneud y canlynol:
 - Dangos sut mae'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig wedi llywio'r gwaith o ddatblygu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol
 - Amlinellu'r fethodoleg ar gyfer y gwerthusiad
 - Amlinellu'r opsiynau a gafodd eu hystyried, sut y cawsant eu nodi, ac unrhyw fesurau lliniaru a gynigiwyd
 - Amlinellu effeithiau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol y Materion, yr Opsiynau a'r Opsiwn a Ffefrir
 - Disgrifio'r cynigion ar gyfer monitro

10. Ymgynghorwyd ar yr adroddiad interim hwn ar y Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig. Mae gwybodaeth bellach ar gael am gamau proses y Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer y dyfodol yn Adran 2.1 yr Adroddiad Cwmpasu terfynol.

Dadansoddiad ystadegol a throsolwg o'r sylwadau ar bob cwestiwn

11. Ni wnaeth llawer o ymatebwyr lenwi'r ffurflen ymgynghori pan oeddent yn rhoi eu hymateb i'r ymgynghoriad. O ganlyniad, nodwyd sylwadau nifer o ymatebwyr fel "dim ymateb". Roedd hyn oherwydd ni wnaeth yr ymatebwr lenwi'r ffurflen a roddwyd, ond yn hytrach dewis cyflwyno ymateb ar wahân. Mae hyn yn wahanol i sylwadau rhai ymatebwyr yn cael eu nodi fel "methu ag ateb", lle nad atebwyd y cwestiwn ar y ffurflen.

Cwestiwn 1


A ydych yn cefnogi canfyddiadau'r adolygiad o gynlluniau, rhaglenni ac amcanion diogelu'r amgylchedd perthnasol? A oes unrhyw gynlluniau, rhaglenni neu amcanion diogelu'r amgylchedd yr hoffech eu hychwanegu? A oes unrhyw rai yr hoffech eu tynnu o'r adolygiad? (Adran 3)

Adolygiad Ystadegol

12. Mae 16 o ymatebwyr yn cefnogi canfyddiadau'r adolygiad o gynlluniau, rhaglenni ac amcanion diogelu'r amgylchedd perthnasol – chwech gyda sylwadau ychwanegol – tra na roddodd 16 ymateb ac ni chafwyd ateb gan dri. Nid oedd yr un ymatebwr a gwblhaodd y ffurflen ymgynghori yn anghytuno â'r cwestiwn hwn.

Cwestiwn 1	Ydw/Oes	Ydw/Oes ond gyda sylwadau pellach	Dim ymateb	Methu ag ateb
Busnesau	0	1	5	0
Awdurdodau cynllunio lleol	2	1	0	1
Asiantaethau llywodraethol / sector cyhoeddus eraill	3	0	6	0
Cyrff proffesiynol / grwpiau diddordeb	0	1	0	0
Sector gwirfoddol	0	1	3	0
Eraill	5	2	2	2
Cyfanswm y sylwadau:	10	6	16	3

Sylwadau (nifer)



Trosolwg

13. Cafodd nifer o gynlluniau, strategaethau a deddfau eu hawgrymu gan ymatebwyr i'w cynwys, gan y teimlid y dylid ystyried y rhain fel rhan o'r adolygiad. Cafodd y rhain eu hystyried a'u hychwanegu at yr Adolygiad o Gynlluniau, Polisiau a Rhaglenni a'r Themâu Cynaliadwyedd sy'n gysylltiedig â'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig lle bo hynny'n briodol.
14. Mae dadansoddiad llawn o'r ymatebion a'r sylwadau a wnaed, ymatebion Llywodraeth Cymru, a manylion y newidiadau a wnaed ar gael yn Atodiad 1.

Cwestiwn 2


A ydych yn cytuno â'r materion cynaliadwyedd rydym wedi'u nodi? A oes unrhyw faterion eraill y dylai'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig eu hystyried? Os oes, beth ydynt? (Adran 4)

Adolygiad Ystadegol

15. Roedd 20 o ymatebwyr yn cytuno â'r materion cynaliadwyedd a nodwyd yn fframwaith drafft y Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig, deg gyda sylwadau pellach. Er nad oedd neb yn anghytuno â'r cwestiwn, nid atebodd tri ymatebwr ac ni roddodd 12 ymateb.

Cwestiwn	Ydw/Oes	Ydw/Oes ond gyda sylwadau pellach	Dim ymateb	Methu ag ateb
Busnesau	2	2	3	0
Awdurdodau cynllunio lleol	1	2	0	1
Asiantaethau llywodraethol / sector cyhoeddus eraill	3	1	3	0
Cyrff proffesiynol / grwpiau diddordeb	1	2	1	0
Sector gwirfoddol	0	1	2	0
Eraill	3	2	3	2
Cyfanswm y sylwadau	10	10	12	3

Sylwadau (nifer)



Trosolwg

16. Roedd dros hanner yr ymatebwyr yn cefnogi'r materion cynaliadwyedd a nodwyd. Codwyd nifer o faterion ychwanegol, gan gynnwys yr angen i wneud y canlynol:
- Ystyried asedau materol yn llawnach
 - Ehangu ar gydnerthedd ecosystemau a'r Polisi Adnoddau Naturiol trwy gydol yr adroddiad
 - Cryfhau'r cyfeiriadau at newid hinsawdd trwy gydol yr adroddiad, gan gydnabod y goblygiadau ehangach yn hytrach na llifogydd yn unig
 - Cynnwys rhagor o ddata ar barciau cenedlaethol
 - Rhoi rhagor o gydnabyddiaeth i geoamrywiaeth, nid fel rhywbeth sy'n sail i fioamrywiaeth yn unig
 - Cynnwys rhagor ynghylch y dinas-ranbarthau
 - Cryfhau sut mae'r ffyrdd o weithio wedi effeithio ar a sut byddant yn parhau i ddylanwadu ar y gwaith hwn
 - Egluro'r rhyngweithio rhwng cynllunio morol a daearol
 - Cydnabod yr amrywiaethau mewn perthynas â'r Gymraeg, gan gynnwys rôl y system gynllunio Cyfeirio'n fwy penodol at y sector dreftadaeth a'r cysylltiadau rhwng twristiaeth a threftadaeth
17. Mae'r holl sylwadau wedi cael eu hadolygu a gwnaed newidiadau lle bo hynny'n briodol. Mae dadansoddiad llawn o'r ymatebion a'r sylwadau a wnaed, ymatebion Llywodraeth Cymru, a manylion y newidiadau a wnaed ar gael yn Atodiad 1.


Cwestiwn 3

A oes unrhyw destunau penodol neu ardaloedd daearyddol sy'n peri pryder penodol ichi neu eich sefydliad? (Adran 4)

Adolygiad Ystadegol

18. Er bod pedwar ymatebwr yn anghytuno â'r cwestiwn hwn, roedd 13 yn cytuno, chwech gyda sylwadau ychwanegol, nid atebodd tri, ac ni roddodd 15 ymateb.

Cwestiwn	Oes	Oes ond gyda sylwadau pellach	Dim ymateb	Methu ag ateb	Anghytuno
Busnesau	0	2	5	0	0
Awdurdodau cynllunio lleol	2	1	1	0	0
Asiantaethau llywodraethol / sector cyhoeddus eraill	1	1	3	0	1
Cyrff proffesiynol / grwpiau diddordeb	2	0	1	0	1
Sector gwirfoddol	0	2	1	0	0
Eraill	2	0	4	3	2
Cyfanswm y sylwadau:	7	6	15	3	4



Trosolwg

19. Roedd y sylwadau a wnaed yn cynnwys nifer o destunau a meysydd i'w cynnwys megis:
 - Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy
 - Newid yn yr hinsawdd
 - Yr iaith Gymraeg
 - Dinas-ranbarthau
 - Iechyd a llesiant
 - Teithio llesol
 - Coedwigaeth

20. Mae'r rhain wedi cael eu hystyried yn drwyadl trwy gydol yr adroddiad a gwnaed newidiadau priodol. Mae dadansoddiad llawn o'r ymatebion a'r sylwadau a wnaed, ymatebion Llywodraeth Cymru, a manylion y newidiadau a wnaed ar gael yn Atodiad 1.

21. Cafodd nifer o brosiectau eu cyflwyno hefyd; mae'r rhain wedi cael eu trosglwyddo i dîm y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i'w hystyried fel rhan o'r gwaith galw am dystiolaeth a phrosiectau.


Cwestiwn 4

Yn eich barn chi, a oes unrhyw newidiadau y dylid eu gwneud i amcanion neu gwestiynau'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig? (Adran 5)

Adolygiad Ystadegol

22. Roedd un ar ddeg ymatebwr yn cytuno â'r cwestiwn hwn, wyth gyda sylwadau pellach; fodd bynnag, roedd chwech ymatebwr yn anghytuno. Ni chafodd ymateb gan 15 o ymatebwyr tra nad atebodd tri'r cwestiwn hwn.

Cwestiwn	Oes	Oes ond gyda sylwadau pellach	Dim ymateb	Methu ag ateb	Anghytuno
Busnesau	0	1	5	0	0
Awdurdodau cynllunio lleol	1	2	0	1	0
Asiantaethau llywodraethol / sector cyhoeddus eraill	1	0	4	0	2
Cyrff proffesiynol / grwpiau diddordeb	1	1	1	0	0
Sector gwirfoddol	0	2	1	0	0
Eraill	0	2	4	2	4
Cyfanswm y sylwadau:	3	8	15	3	6



Trosolwg

23. Roedd ymatebwyr o'r farn fod nifer o newidiadau y dylid eu gwneud i amcanion neu gwestiynau'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig. Roedd y rhain yn cynnwys yr angen am y canlynol:
- Eglurder a chysondeb wrth ddrafftio'r cwestiynau
 - Cwestiynau ychwanegol a diwygiadau i'r amcanion
 - Cysylltiadau a chydawsedd rhwng amcanion a chwestiynnau.
24. Nodwyd nifer o'r rhain a gwnaed newidiadau yn y diweddariad i fframwaith y Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig. Roedd hyn yn cynnwys darparu eglurder ynghylch rôl y cwestiwn a newidiadau i adlewyrchu'r sylwadau a'r newidiadau o fewn yr adroddiad yn dilyn y gwaith o ystyried y sylwadau ar yr ymgynghoriad.
25. Mae dadansoddiad llawn o'r ymatebion a'r sylwadau a wnaed, ymatebion Llywodraeth Cymru, a manylion y newidiadau a wnaed ar gael yn Atodiad 1.

Cwestiwn 5


A oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch sut y dylai opsiynau amgen rhesymol gael eu datblygu?

Adolygiad Ystadegol

26. Roedd dosbarthiad y sylwadau ar Gwestiwn 5 yn fwy cyfartal byth nag ar gyfer y cwestiynau blaenorol, gyda wyth yn cytuno, pedwar gyda sylwadau pellach, a saith yn anghytuno. Ni roddodd pedwar ateb ac ni chafwyd ymateb gan 16.

Cwestiwn 5	Oes	Nac oes ond gyda sylwadau pellach	Dim ymateb	Methu ag ateb	Anghytuno
Busnesau	0	1	5	0	1
Awdurdodau cynllunio lleol	1	1	1	1	0
Asiantaethau llywodraethol / sector cyhoeddus eraill	2	0	3	1	1
Cyrff proffesiynol / grwpiau diddordeb	1	0	1	0	2
Sector gwirfoddol	0	1	2	0	0
Eraill	0	1	4	2	3
Cyfanswm y sylwadau	4	4	16	4	7

Sylwadau (nifer)



Trosolwg

27. Roedd llawer o sylwadau ynghylch sut y dylid datblygu opsiynau amgen rhesymol – er enghraifft, yr angen am ymgysylltiad parhaus trwy gydol y broses. Bydd y sylwadau a gafwyd yn llywio cam nesaf y gwaith o asesu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.
28. Codwyd cwestiynau a sylwadau ynghylch Brexit a'r dyfodol a sut y bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn ymdrin â hyn. Mae testun wedi cael ei gynnwys yn yr adroddiad yn cydnabod yr heriau a'r cyfleoedd mae Brexit wedi eu creu.
29. Mae dadansoddiad llawn o'r ymatebion a'r sylwadau a wnaed, ymatebion Llywodraeth Cymru, a manylion y newidiadau a wnaed ar gael yn Atodiad 1.

Cwestiwn 6


A oes gennych unrhyw awgrymiadau pellach mewn perthynas â chwmpas y Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig a'i werthusiad arfaethedig o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol?

Adolygiad Ystadegol

30. Er bod pump ymatebwr yn cytuno , un gyda sylwadau pellach, roedd naw yn anghytuno. Ni chafwyd ymateb gan 18 ymatebwr ac nid atebodd tri ymatebwr y cwestiwn.

Cwestiwn	Oes	Nac oes ond gyda sylwadau pellach	Dim ymateb	Methu ag ateb	Anghytuno
Busnesau	0	1	5	0	1
Awdurdodau cynllunio lleol	0	1	1	1	1
Asiantaethau llywodraethol / sector cyhoeddus eraill	1	0	4	0	2
Cyrff proffesiynol / grwpiau diddordeb	0	1	1	0	2
Sector gwirfoddol	0	0	2	0	1
Eraill	0	1	5	2	2
Cyfanswm y sylwadau:	1	4	18	3	9

Sylwadau (nifer)



Trosolwg

31. Derbyniwyd nifer o sylwadau mewn perthynas â chwmpas y Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig a'i werthusiad arfaethedig o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Roedd llawer o'r rhain yn gysylltiedig â chwestiynau cynharach yn yr ymgynghoriad, gan gynnwys yr angen i ehangu egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, iechyd a llesiant, ac asedau mwynol trwy gydol yr adroddiad. Cafodd y sylwadau hyn eu hystyried yn llawn a gwnaed diwygiadau i'r adroddiad lle bo hynny'n briodol.
32. Mae dadansoddiad llawn o'r ymatebion a'r sylwadau a wnaed, ymatebion Llywodraeth Cymru, a manylion y newidiadau a wnaed ar gael yn Atodiad 1.


Cwestiwn 7

A ydych yn cefnogi'r dull ar gyfer integreiddio'r asesiadau effaith?

Adolygiad Ystadegol

33. Mae 17 o ymatebwyr yn cefnogi'r dull ar gyfer integreiddio'r asesiadau effaith, dau gyda sylwadau pellach, ac nid oedd yr un ymatebwr yn anghytuno. Nid atebodd tri ymatebwr ac ni chafwyd ymateb gan 15 o ymatebwyr.

Cwestiwn	Ydw	Ydw ond gyda sylwadau pellach	Dim ymateb	Methu ag ateb	Anghytuno
Busnesau	1	0	5	0	0
Awdurdodau cynllunio lleol	2	1	0	1	0
Asiantaethau llywodraethol / sector cyhoeddus eraill	4	0	3	0	0
Cyrff proffesiynol / grwpiau diddordeb	2	0	1	0	0
Sector gwirfoddol	2	0	2	0	0
Eraill	4	1	4	2	0
Cyfanswm y sylwadau:	15	2	15	3	0



Trosolwg

34. Roedd llawer o'r sylwadau a wnaed yn cefnogi'r dull integredig, gan gynnwys y rhai gan Swyddfa Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru, y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Amgylcheddol yng Nghymru, a'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru.
35. Mae dadansoddiad llawn o'r ymatebion a'r sylwadau a wnaed, ymatebion Llywodraeth Cymru, a manylion y newidiadau a wnaed ar gael yn Atodiad 1.


Cwestiwn 8

A ydych yn cefnogi canfyddiadau'r gwaith sgrinio cychwynnol ar gyfer yr asesiadau effaith yn Nhabl 2-1?

Adolygiad Ystadegol

36. Roedd 19 ymatebwr yn cefnogi canfyddiadau'r gwaith sgrinio cychwynnol ar gyfer yr asesiadau effaith, tri gyda sylwadau pellach, tra nad atebodd tri ac ni chafwyd ymateb gan 13 o ymatebwyr.

Cwestiwn	Ydw	Ydw ond gyda sylwadau pellach	Dim ymateb	Methu ag ateb	Anghytuno
Busnesau	3	0	3	0	0
Awdurdodau cynllunio lleol	2	1	0	1	0
Asiantaethau llywodraethol / sector cyhoeddus eraill	4	0	3	0	0
Cyrff proffesiynol / grwpiau diddordeb	1	1	1	0	0
Sector gwirfoddol	2	0	2	0	0
Eraill	4	1	4	2	0
Cyfanswm y sylwadau:	16	3	13	3	0



Trosolwg

37. Nid oedd y cwestiwn hwn yn sbarduno'r un lefel o sylwadau o gymharu â chwestiynau eraill. Roedd y sylwadau a wnaed yn cynnwys yr angen i gryfhau'r cyfeiriadau at newid hinsawdd trwy gydol yr adroddiad, a phwysigrwydd ymgysylltiad ystyrlon. Gwnaed newidiadau i'r Adroddiad Cwmpasu i fynd i'r afael â'r sylwadau hyn lle bo hynny'n berthnasol.
38. Mae dadansoddiad llawn o'r ymatebion a'r sylwadau a wnaed, ymatebion Llywodraeth Cymru, a manylion y newidiadau a wnaed ar gael yn Atodiad 1.

Cwestiwn 9


A oes darnau ychwanegol o ddata gwaelodlin neu dystiolaeth y dylai'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig eu hystyried gyda golwg penodol ar yr asesiadau effaith yn Nhabl 2-1?

Adolygiad Ystadegol

39. Roedd pump ymatebwr yn cytuno â Chwestiwn 9, tri gyda sylwadau pellach, tra oedd wyth yn anghytuno; nid atebodd pedwar ac ni chafwyd ymateb gan 18 o ymatebwyr.

Cwestiwn	Oes	Oes ond gyda sylwadau pellach	Dim ymateb	Methu ag ateb	Anghytuno
Busnesau	0	0	5	0	1
Awdurdodau cynllunio lleol	0	1	0	2	1
Asiantaethau llywodraethol / sector cyhoeddus eraill	1	0	4	0	2
Cyrff proffesiynol / grwpiau diddordeb	0	1	2	0	0
Sector gwirfoddol	0	0	2	0	2
Eraill	1	1	5	2	2
Cyfanswm y sylwadau:	2	3	18	4	8

Sylwadau (nifer)



Trosolwg

40. Yn debyg i Gwestiwn 8, nid oedd Cwestiwn 9 yn denu'r un lefel o sylwadau o gymharu â rhai o'r cwestiynau cynharach yn yr ymgynghoriad. Cafodd yr holl sylwadau eu hystyried yn llawn a chafodd tystiolaeth ychwanegol a roddwyd ei chynnwys yn yr adroddiad lle bo hynny'n briodol.
41. Mae dadansoddiad llawn o'r ymatebion a'r sylwadau a wnaed, ymatebion Llywodraeth Cymru, a manylion y newidiadau a wnaed ar gael yn Atodiad 1.

Cwestiwn 10

A oes gennych unrhyw sylwadau eraill?

Trosolwg

42. Denodd y cwestiwn hwn nifer o sylwadau, gosodiadau a chwestiynau manwl; ystyriwyd y rhain a chafodd yr adroddiad ei ddiweddarau yn ôl y gofyn, gan gynnwys newidiadau i gwestiynau ar fframwaith y Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig, ychwanegu testun ar Brexit, ac eglurder ynghylch y rhyngwyneb rhwng cynllunio morol a daearol.
43. Mae dadansoddiad llawn o'r ymatebion a'r sylwadau a wnaed, ymatebion Llywodraeth Cymru, a manylion y newidiadau a wnaed ar gael yn Atodiad 1.

Cwestiwn 1

A ydych yn cefnogi canfyddiadau'r adolygiad o gynlluniau, rhaglenni ac amcanion diogelu'r amgylchedd perthnasol? A oes unrhyw gynlluniau, rhaglenni neu amcanion diogelu'r amgylchedd ychwanegol yr hoffech eu hychwanegu? A oes unrhyw rai yr hoffech eu tynnu o'r adolygiad? (Adran 3)

Rhif cynrychiolydd	Enw	Cefnogi'r cwestiwn?	Sylwadau Dyfynnir yn Saesneg pan fydd yr ymateb wedi dod i law yn Saesneg yn unig	Ymateb	Newid arfaethedig
1	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	Ydyn	The review should also include Minerals Technical Advice Notes 1 and 2	Cytuno. Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau i'w hychwanegu at yr adolygiad a chamau dilynol o'r adroddiad fel y bo'n briodol.	Ychwanegu Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau (MTAN) Llywodraeth Cymru i'r adolygiad o Gynlluniau, Polisiâu a Rhaglenni (Plans, Policies and Programmes <i>PPP</i>) a themâu cynaliadwyedd wedi'u cysylltu ag amcanion y Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig yn Atodiad A.
2	Cyfoeth Naturiol Cymru	--	It is our view that the principles of the sustainable management of natural resources (SMNR), as set out in the Environment Act (Wales) 2016 should be explicitly referenced and acknowledged. We welcome the prominence given to the State of Natural Resources Report (SoNaRR) both here and in the analysis of baseline information. We also welcome the high profile mention of, and links to, both the emerging Natural Resources Policy (NRP) and Welsh National Marine Plan (WNMP), all of which are likely to have significant influence over the NDP.	Cytuno.	Mae egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (SMNR) wedi'u hintegreiddio trwy gydol y ddogfen.
			We suggest you also include Welsh Government's Wellbeing Statement. In addition, we suggest including the Welsh Government's Nature Recovery Plan.	Wedi cyfeirio at ddatganiad lles Llywodraeth Cymru, 'Symud Cymru Ymlaen 2016–2021', felly dim angen newid. Cytuno i gynnwys Cynllun Adfer Natur.	Cynllun Adfer Natur wedi'i ychwanegu at yr adolygiad <i>PPP</i> a chynaliadwyedd. Mae'r rhain yn Atodiad A.
			Appendix A appears to be missing sector development legislation/plans. This may be because it is considered to sit underneath the named policies/plans already mentioned, but this doesn't seem to be the case in all instances, for example: <ul style="list-style-type: none"> UN Convention on Law of the Sea Petroleum Act DECC/BEIS Offshore Energy Plan and subordinate plans for offshore oil and gas licensing The Crown Estate Minerals Licensing Plan Shoreline Management Plans 	Cytuno i gynnwys <i>PPP</i> au cenedlaethol a rhyngwladol. Fodd bynnag, ni chredir bod y <i>PPP</i> arall y awgrymwyd, sy'n ymwneud â thrwyddedu, yn gymwys yn uniongyrchol i gynllunio defnydd tir.	Confensiwn yr Unol Daleithiau ar Gyfraith y Môr 1982, Deddf Petrolewm 1998, a Chynlluniau Rheoli'r Draethlin wedi'u hychwanegu at yr adolygiad <i>PPP</i> a'r themâu cynaliadwyedd sy'n gysylltiedig ag amcanion y Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig yn Atodiad A.

Rhif cynrychiolydd	Enw	Cefnogi'r cwestiwn?	Sylwadau Dyfynnir yn Saesneg pan fydd yr ymateb wedi dod i law yn Saesneg yn unig	Ymateb	Newid arfaethedig
			In addition, we note that there is no reference to Area Statements. See our comments in relation to Question 5, consideration of alternatives. Regardless of this, given that it is anticipated that these documents will be key in the implementation of the Natural Resources Policy, it is our view that they should be included in the plans reviewed, if they are published in time for consideration. Area Statement production will start once the Natural Resources Policy is approved, with all of them published by the end of 2019. The NDP will need to take them in to account as they are published.	Wedi'i nodi.	Testun wedi'i ddiweddarau yn adran 3.1 i gydnabod sut bydd gwaith a fydd yn ymddangos yn y dyfodol yn cael ei gynnwys a natur ailadroddol y broses.
			The Natural Resources Policy Statement (2015) is incorrectly attributed to NRW (Appendix A, page 4). This is a Welsh Government document.	Cytuno.	Wedi cywiro.
			<u>Water</u> The review of plans should include the River Basin Management Plans (RBMPs) that are relevant to Wales - Natural Resources Wales produced the RBMPs for the Dee and Western Wales, and the Environment Agency have produced the plan for the Severn. Whilst we recognise that these plans are not produced at a national scale, they contain National Measures, which are set out in the RBMPs separately but that apply to Wales as a whole. It is our view that these National Measures should to be considered as there is a real opportunity for the NDF to help deliver them, for example implementing sustainable urban drainage etc. In addition, we have an all Wales delivery plan which sets out the timetable etc. for delivery, which should also be considered, and which we can forward on to you.	Wedi'i nodi. Cytuno.	Mae'r cynlluniau rheoli basn afon wedi'u hychwanegu a'r cynllun cyflenwi Cymru gyfan wedi'i ystyried. Bydd dangosyddion yn cael eu hystyried, ond nid ydynt yn cael eu cynnwys yn benodol yn y fframwaith asesu ar hyn o bryd. Bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn yr adroddiadau at bwrpasau monitro yn ddiweddarach yn ystod y Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig.
			Appendix B, page 32, 3.1.5 Water Environment, Baseline condition and trends – there are a number of errors in this section. This includes the figure referenced (the title is wrong), and, more significantly, the baseline data quoted is incorrect. Currently it states that 'In 2014 42% of water bodies in Wales were classified as being of 'good' ecological status compared to 21% in England. There was a slight decrease to 39% classified as being of 'good' ecological status in 2015'. This is incorrect. In 2015 cycle 1 for Wales there were 37% of water bodies achieved good or better ecological status. For Wales in Cycle 2, in 2015 over 38% of water bodies achieved good or better ecological status. 39% relates to the overall figure (combined ecological and chemical) for Wales in Cycle 1 2015. 42% refers to the predicted number of water bodies in 2021.	Wedi'i nodi.	Mae camgymeriadau wedi'u cywiro, gan ddefnyddio'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR).
			<u>Climate change</u> We support the reference to the "Defra (2012) UK Climate Change Risk Assessment: Government Report", but would expect the corresponding document for the latest UK Climate Change Risk Assessment to be used as well, namely: <ul style="list-style-type: none"> UK Climate Change Risk Assessment 2017: Government Report https://www.gov.uk/government/publications/uk-climate-change-risk-assessment-2017 Similarly, we support reference to the "Committee on Climate Change (2017) UK Climate Change Risk Assessment 2017 Evidence Report, Summary for Wales", but would make the point that this is a relatively high-level document, and that the technical chapters of the	Cytuno y dylid ychwanegu'r adroddiad ar Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd y DU. Gallai rhagor o wybodaeth fanylach gael ei hystyried ar gyfnodau diweddarach o'r adroddiad. Fodd bynnag, nodir bod	Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd 2017 wedi'i ychwanegu at yr adolygiad PPP a'r data sylfaenol. Materion newid hinsawdd wedi'u hychwanegu drwyddi draw – materion a

Rhif cynrychiolydd	Enw	Cefnogi'r cwestiwn?	Sylwadau	Ymateb	Newid arfaethedig
			<p>Dyfynnir yn Saesneg pan fydd yr ymateb wedi dod i law yn Saesneg yn unig</p> <p>full UK report would need to be accessed for more detailed information, link below:</p> <ul style="list-style-type: none"> https://www.theccc.org.uk/uk-climate-change-risk-assessment-2017/ <p>Overall, we are satisfied that all relevant plans, programmes etc. in terms of flood risk and coastal erosion have been identified and reviewed. We suggest that the Key theme from the review in terms of flood risk could be expanded to include 'impacts on people /property'.</p>	<p>adroddiad cwmpasu'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig yn bwriadu bod yn un lefel uchel. Cytuno y gallai'r brif thema gael ei hehangu.</p>	<p>chyfleoedd yn Atodiad B a'r prif adroddiad (Tabl 4-1).</p> <p>Paragraff wedi'i ychwanegu yn cyfeirio at natur drawsbynciol y newid yn yr hinsawdd, gan nodi y bydd amcanion yn cael eu hystyried yn eu cyfanrwydd.</p>
			<p><u>Comments on sustainability themes in Appendix A</u></p> <p>The Sustainability Themes identified in Table 1-2 (in terms of flood risk – page 10) capture the precautionary principle well in terms of new development and climate change adaptation. However, it is stated that the NDF will “use natural features that contribute to flood management to reduce flood risk and coastal erosion”... and that “this should be considered when determining the location and design of new development”? Whilst this sounds good, we are less clear about how this will be delivered in practise. We would welcome greater clarity on exactly how the NDF will link flood defence/mitigation programmes with development management.</p>	<p>Wedi'i nodi. Bydd eglurhad pellach ar sut y gallai'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol gysylltu rhaglenni amddiffyn/lliniaru â rheoli datblygu yn cael ei archwilio trwy gydol proses y Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig (Amcan 7).</p>	<p>Nid oes angen newid pellach.</p>
			<p><u>Comments on sustainability themes in Appendix A</u></p> <p>The theme related to the protection of water resources/quality (page 13) could be enhanced by including the greater use of Sustainable Urban Drainage Systems (SUDS) as an opportunity. It would also be good to see the sustainable use and disposal of water in all new developments captured (to include sewerage as well as surface water drainage).</p>	<p>Wedi'i nodi.</p>	<p>Systemau draenio cynaliadwy wedi'u hystyried yn y materion a'r cyfleoedd yn Atodiad B a Thabl 4-1</p>
			<p><u>Comments on sustainability themes in Appendix A</u></p> <p>Theme 'Create safe, sustainable, balanced and cohesive communities' (page 19) should include Wellbeing Goal 7. 'Safe' should include safety from natural hazards such as flood risk and coastal erosion.</p>	<p>Wedi'i nodi.</p>	<p>Wedi ychwanegu cyfeiriad at Nod Llesiant 7.</p>
			<p><u>Landscape</u></p> <p>Appendix A, Page 17, Protect and enhance the local distinctiveness of our landscapes and the historic environment and its setting – the Historic Landscapes Register is included, and we therefore suggest also including statutory National Park and AONB management plans. In addition, other related UK legislation that should be referred to includes:</p> <ul style="list-style-type: none"> National Parks and Access to Countryside Act 1949 Countryside Act 1968 	<p>Wedi'i nodi. Nodir bod y ddeddfwriaeth wedi'i chynnwys eisoes yn yr adolygiad PPP. Credir mai dogfennau a raddiwyd yn lleol yw'r cynlluniau rheoli ar gyfer parciau cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol sy'n llywio'r cynlluniau datblygu lleol, felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn y Gwerthusiad</p>	<p>Data ar barciau cenedlaethol wedi'i ychwanegu at Atodiad B.</p>

Rhif cynrychiolydd	Enw	Cefnogi'r cwestiwn?	Sylwadau Dyfynnir yn Saesneg pan fydd yr ymateb wedi dod i law yn Saesneg yn unig	Ymateb	Newid arfaethedig
				Cynaliadwyedd Integredig ar hyn o bryd.	
			<p><u>Health and Wellbeing</u> We wish to highlight the importance of the new National Survey for Wales (NSW), an integrated survey by the Welsh Government, Natural Resources Wales, Sport Wales and the Arts Council. This will provide the key data for the population of Wales on a wide range of relevant social and economic aspects, including health and subjective well-being, participation in outdoor recreation and sport, and attitudes towards exposure to flood risk, climate change and biodiversity loss, and will therefore be a key source of data for the ISA and the NDF on the population of Wales. The first results are due to be published on the 28th June 2017, with subsequent annual publication of data until at least 2021.</p>	Wedi'i nodi. Bydd canlyniadau'r arolwg hwn yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses asesu, lle y bo'n briodol, pan fydd yr wybodaeth yn dod i law.	Data perthnasol wedi'i ychwanegu at Atodiad B.
			<p><u>Economics</u> Additional strategies and plans that should be considered as part of the review are:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Green Growth Baseline Study (2014), A report for Welsh Government prepared by Eftec on behalf of the Green Growth Steering Group • http://www.cynnalcyrmru.com/wp-content/uploads/2015/02/Green-Growth-Baseline-Study1.pdf • Growth within: A circular economy: vision for a competitive Europe (2015). McKinsey Center for Business and Environment, jointly sponsored by the Ellen MacArthur Foundation and SUN • http://www.mckinsey.com/business-functions/sustainability-and-resource-productivity/our-insights/europes-circular-economy-opportunity 	Wedi'i nodi a'i gytuno.	Astudiaeth Sylfaenol o Dwf Gwyrdd (2014) a 'Growth Within: A Circular Economy Vision for a Competitive Europe' (2015) wedi'u hychwanegu at yr adolygiad PPP a'r themâu cynaliadwyedd sy'n gysylltiedig ag amcanion y Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig yn Atodiad A.
			<p><u>Energy</u> UK Plans and Programmes</p> <ul style="list-style-type: none"> • HM (Government) (2013) The Energy Act 2013 • HM (Government) (2016) the Energy Act 2016 • The Wales Act 2017 	Wedi'i nodi a'i gytuno.	Deddfau Ynni 2013 a 2016 a Deddf Cymru 2017 wedi'u hychwanegu at yr adolygiad PPP a'r themâu cynaliadwyedd sy'n gysylltiedig ag amcanion y Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig yn Atodiad A.
			<p>Wales Plans and Programmes</p> <ul style="list-style-type: none"> • Welsh Government's 2014 Energy Wales: A Low Carbon Transition Delivery Plan • Welsh Government's 2015 Green growth Wales: Investing in the Future • Welsh Government's 2015 Green growth Wales: Local Energy • Energy Efficiency in Wales: A Strategy for the Next 10 years 2016-2026 <p>Both the Green Growth documents are part of a programme aimed at fostering economic growth, development and social equity, while ensuring that our natural assets can continue to provide the resources and environmental services on which our wellbeing relies. They focus on the sustainable use of natural resources by stimulating investment and innovation, which will help create a new economic model, and deliver economic growth.</p>	Wedi'i nodi a'i gytuno.	Cynlluniau a rhaglenni Cymru, megis Ynni Cymru 2014 Llywodraeth Cymru: Cynllun Cyflawni Carbon Isel, Twf Gwyrdd: Buddsoddi yn y Dyfodol, Twf Gwyrdd Cymru: Ynni Lleol, ac Arbed Ynni yng Nghymru: Strategaeth ar gyfer y ddeng mlynedd nesaf, 2016–2026, wedi'u

Rhif cynrychiolydd	Enw	Cefnogi'r cwestiwn?	Sylwadau Dyfynnir yn Saesneg pan fydd yr ymateb wedi dod i law yn Saesneg yn unig	Ymateb	Newid arfaethedig
					hychwanegu at yr adolygiad PPP, themâu cynaliadwyedd wedi'u cysylltu ag amcanion y Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig yn Atodiad A a Thabl 3-3.
			<p><u>Biodiversity</u> Making Space for Nature: A review of England's Wildlife Sites and Ecological Network, Lawton, J. (2010) – whilst this review was produced in relation to English sites, the principles of better, bigger, more joined up, more permeable landscape etc. apply equally to Wales. The map of designated sites has some out of date information: all the marine sites currently described as potential SPAs, should be just SPAs (they were designated by the Minister in January).</p>	Wedi'i nodi. Dogfen dim ond yn cyfeirio at Loegr, dim dylanwad uniongyrchol ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Noder bod egwyddorion wedi'u dangos mewn dogfennau eraill sydd wedi'u hadolygu.	Angen diweddarau Ffigur 1.
			<p><u>Item to add to the review: Health & Well-being</u> 'Climbing Higher, the Welsh Government's Strategy for Sport and Physical Activity', should be included. This is a 20 year strategy published in 2006 running until 2025, and should inform the NDF. Climbing Higher still contains the target that no one should live more than a six minute walk (300m) from their nearest natural green space.</p>	Wedi'i nodi a'i gytuno.	'Dringo'n Uwch: Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol' wedi'i hychwanegu at yr adolygiad PPP a'r themâu cynaliadwyedd sy'n gysylltiedig ag amcanion y Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig yn Atodiad A.
3	Cadw	--	<p>The review has identified most relevant plans and programmes related to the historic environment. However, some of the plans and programmes identified are not active in Wales, and other relevant plans and programmes have not been identified. We question whether the following, included in the list of UK Plans and Programmes, are relevant in Wales;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Department for Culture, Media & Sport (2007) Heritage Protection for the 21st Century; • Department for Culture, Media & Sport (2013) Scheduled Monuments & Nationally Important but Non-Scheduled Monuments; • HM Government (2002) The National Heritage Act 2002 	Wedi'i nodi a'i gytuno.	Tynnu dogfennau'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon ar warchod treftadaeth yr 21ain Ganrif a henebion rhestredig a henebion o bwysigrwydd cenedlaethol ond heb eu rhestru a Deddf Treftadaeth Genedlaethol Llywodraeth y DU o'r adolygiad PPP a'r themâu cynaliadwyedd sy'n gysylltiedig ag amcanion y Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig yn Atodiad A.

Rhif cynrychiolydd	Enw	Cefnogi'r cwestiwn?	Sylwadau Dyfnir yn Saesneg pan fydd yr ymateb wedi dod i law yn Saesneg yn unig	Ymateb	Newid arfaethedig
			In addition, the following should be removed from the list of National (Wales) Plans and Programmes; <ul style="list-style-type: none"> Welsh Government (2013) The Historic Environment Strategy for Wales. 	Wedi'i nodi a'i gytuno.	Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol Cymru Llywodraeth Cymru wedi'i thynnu o'r adolygiad PPP a'r themâu cynaliadwyedd sy'n gysylltiedig ag amcanion y Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig yn Atodiad A.
			The following should be added to the list of UK Plans and Programmes; <ul style="list-style-type: none"> Cultural Property and Armed Conflict Act 2017 The UK marine policy statement (2011) 	Wedi'i nodi. Mae Datganiad Polisi Morol y DU eisoes wedi'i gynnwys yn yr adolygiad. Ers hyn, mae Cadw wedi cyngori nad oes angen cynnwys y Ddeddf Eiddo Diwylliannol a Gwrthdaro Arfog.	Nid oes angen cymryd camau pellach.
			The following should be added to the list of National (Wales) Plans and Programmes; <ul style="list-style-type: none"> Welsh Government (2016) Light Springs through the Dark: A Vision for Culture in Wales; and Welsh Government (2017) Technical Advice Note 24: The Historic Environment. Welsh National Marine Plan (forthcoming). 	Cytuno i ychwanegu Nodyn Cyngor Technegol 24 a Golau yn y Gwyll. Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru sydd ar droed eisoes wedi'i ystyried yn yr adroddiad.	Nodyn Cyngor Technegol 24 a Golau yn y Gwyll: gweledigaeth ar gyfer diwylliant yng Nghymru wedi'u hychwanegu at yr adolygiad PPP a'r themâu cynaliadwyedd sy'n gysylltiedig ag amcanion y Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig yn Atodiad A.
			The following should be added to the list of International Plans and Programmes; <ul style="list-style-type: none"> Convention for the Protection of Cultural Property in the Event of Armed Conflict with Regulations for the Execution of the Convention 1954. 	Nodir bod Cadw wedi cyngori ers hyn nad oes angen cynnwys y ddogfen hon.	Nid oes angen cymryd camau pellach.
			ii) Please see appendix A attached to this letter for our comments about Table 1-2 Sustainability Themes linked to ISA Objectives.	Gweler mwy o sylwadau isod o dan Gwestiwn 10, rhif cynrychiolydd 3.	
4	Cyngor Dinas Casnewydd	Heb ateb	N/A		
5	Unigolyn	Heb ateb	N/A		
6	Dyfodol i'r iaith	Ydyn, yn unol â sylwadau pellach	Gan fod diogelu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn elfen bwysig o'r arfarniad, mae'n allweddol bwysig sicrhau bod y broses yn cyd-fynd ag amcanion a chymau gweithredu Strategaeth y Gymraeg. Ceir gyfeiriad at y nod o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg (sef prif nod Strategaeth y Gymraeg) yn Atodiad A, ond fel y mae'r Strategaeth yn datblygu, yna rhaid i'r	Wedi'i nodi. Pwyntiau i'w hystyried trwy gydol proses y Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig.	Nid oes angen cymryd camau pellach.

Rhif cynrychiolydd	Enw	Cefnogi'r cwestiwn?	Sylwadau Dyfynnir yn Saesneg pan fydd yr ymateb wedi dod i law yn Saesneg yn unig	Ymateb	Newid arfaethedig
			<p>gwaith hwn adlewyrchu ac ategu'r camau penodol.</p> <p>Credwn fod peryg mewn canolbwytio'n llwyr ar y nod uchelgeisiol hwn: os am wireddu'r fath weledigaeth, rhaid sefydlu hinsawdd gadarnhaol a chamau gweithredu hirdymor a phendant. Os yw'r arfarniad am wneud gwir wahaniaeth i'r Gymraeg, yna bydd rhaid ystyried sut y gall gefnogi pob cam o'r daith, yn hytrach nag anelu at darged cyffredinol</p> <p>Byddwn yn nodi'n ogystal pwysigrwydd y Bil Cynllunio (2015) sy'n gofyn am ystyriaeth o'r Gymraeg, pan fo'n berthnasol, wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae'n hanfodol adlewyrchu'r egwyddor yng nghwmpas yr arfarniad hwn, ac yn wir, ar bob lefel o'r gyfundrefn gynllunio.</p> <p>Mae'r ddogfen ymgynghori'n rhoi pwyslais ar ofynion statudol Mesur y Gymraeg (2011), a byddwn yn nodi bwriad y Llywodraeth i adolygu'r Mesur hwn. Byddwn yn ychwanegu na fyddai canolbwytio'n llwyr ar ofynion y Mesur presennol (i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg) yn gallu cyflawni llawer o safbwynt hybu'r Gymraeg. Mesur amddiffynnol yw hwn yn y bôn, ac o'i ddilyn i'r llythyren, mae peryg colli'r cyfle i weithredu'r rhagweithiol o blaid yr iaith.</p>		
			<p>Dyma gyfieithiad o'r ymateb a dderbyniwyd yn Gymraeg.</p> <p>Because protecting and promoting the Welsh language is an important element of the appraisal, it is vitally important to ensure that the process accords with the objectives and actions of the Welsh Language Strategy. Reference is made to the aim of creating a million Welsh speakers (the main aim of the Welsh Language Strategy) in Appendix A, but as the Strategy develops, this work must reflect and support the specific actions.</p> <p>We believe that focusing entirely on this ambitious aim is risky: if such a vision is to be realised, a positive climate must be established along with long-term and clear actions. If the appraisal is to make a real difference to the Welsh language, consideration must be given to how it can support every step, rather than aim for a general target.</p> <p>We will also note the importance of the Planning Bill (2015), which requires the Welsh language to be taken into consideration, when relevant, when determining planning applications. It is essential to reflect the principle in the scope of this appraisal, and indeed, on all levels of the planning system.</p> <p>The consultation document focuses on the statutory requirements of the Welsh Language Measure (2011) and we will note the Government's intention of reviewing this Measure. We will also add that focusing fully on the requirements of the current Measure (not treating the Welsh language less favourably than the English language) would not achieve much in</p>		

Rhif cynrychiolydd	Enw	Cefnogi'r cwestiwn?	Sylwadau Dyfynnir yn Saesneg pan fydd yr ymateb wedi dod i law yn Saesneg yn unig	Ymateb	Newid arfaethedig
			terms of promoting the Welsh language. This is a defensive measure in essence, and if followed to the letter, there is a risk of missing the opportunity to take proactive action for the language.		
7	Cyngor Cymuned Mochdre gyda Phenystyrywaid	Ydyn	N/A		
8	Cyngor Tref Llandudno	Ydyn	N/A		
9	Pupils2Parliament	--	N/A		
10	Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch	--	Please see comments at Q10		
11	Cyd-ymateb gan Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru, y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Amgylcheddol yng Nghymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru	--	Yes. We welcome the inclusion of integrating a number of assessments including Health Impact Assessment. We do not wish any identified plans, programme or environmental protection objectives to be removed.	Wedi'i nodi.	Nid oes angen cymryd camau pellach.
			We would like to add the following Strategy: Welsh Government (2012) Together for Mental Health: A Strategy for Mental Health and Wellbeing in Wales.	Wedi'i nodi.	Law yn llaw at Iechyd Meddwl: Strategaeth ar gyfer Iechyd Meddwl a Llesiant yng Nghymru wedi'i hychwanegu at yr adolygiad PPP a'r themâu cynaliadwyedd sy'n gysylltiedig ag amcanion y Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig yn Atodiad A.
			We also want to add the UK Climate Change Risk Assessment (CCRA) 2017 (which includes a Wales section). This document is available at: https://www.gov.uk/government/publications/uk-climate-change-risk-assessment-2017	Wedi'i nodi.	Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd 2017 y DU wedi'i ychwanegu at yr adolygiad PPP a'r themâu cynaliadwyedd sy'n gysylltiedig ag amcanion y Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig yn Atodiad A.
12	Tri awdurdod parc cenedlaethol	Ydyn	None		
13	Cyngor Caerdydd	Ydyn, yn unol â mwy o sylwadau	For completeness the following documents should be added to the National (Wales) Plans and Programmes section of Appendix A Plans, Programmes and Environmental Protection Objectives Reviewed: <ul style="list-style-type: none"> Welsh Government (2004) Interim Marine Aggregates Dredging Policy Welsh Government (2004) Minerals Technical Guidance Note (MTAN) 1: Aggregates 	Wedi'i nodi.	Mae'r tair dogfen wedi'u hychwanegu at yr adolygiad PPP a'r themâu cynaliadwyedd sy'n gysylltiedig ag amcanion y Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig yn Atodiad A

Rhif cynrychiolydd	Enw	Cefnogi'r cwestiwn?	Sylwadau Dyfynnir yn Saesneg pan fydd yr ymateb wedi dod i law yn Saesneg yn unig	Ymateb	Newid arfaethedig
			<ul style="list-style-type: none"> Welsh Government (2009) Minerals Technical Guidance Note (MTAN) 2: Coal 		a Thabl 3-3.
14	Accessible Retail	Ydyn	N/A		
15	AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy	Ydyn, yn unol â sylwadau pellach	<p>The AONB Joint Committee and Partnership welcome the identification of landscape protection and enhancement as a key theme of the ISA (p.17). Overall, the approach to landscape conservation in the ISA is quite comprehensive and well thought through.</p> <p>AONB and National Park Management Plans are prepared every 5 years and are important statutory documents relating to nationally recognised landscape assets, many of which cross administrative boundaries. These should be specifically recognised as relevant plans for consideration as part of the ISA. They provide important baseline information for the key theme of protecting and enhancing landscapes and the historic environment and also contribute to other themes. World Heritage Site Management Plans should be given similar recognition.</p> <p>In the list of relevant UK legislation in respect of the landscape protection and enhancement theme, the National Parks and Access to the Countryside Act 1949 and the Countryside and Rights of Way Act 2000 are a significant omission.</p>	<p>Wedi'i nodi.</p> <p>Wedi'i nodi. Credir mai dogfennau a raddiwyd yn lleol yw'r cynlluniau rheoli ar gyfer parciau cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol sy'n llywio'r cynlluniau datblygu lleol, felly nid dynt wedi'u cynnwys yn y Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig ar hyn o bryd.</p> <p>Wedi'i nodi. Mae'r ddeddfwriaeth hon ar gyfer y DU eisoes wedi'i chynnwys yn yr adolygiad PPP.</p>	<p>Nid oes angen cymryd camau pellach.</p> <p>Data ar barciau cenedlaethol wedi'i ychwanegu at Atodiad B.</p> <p>Nid oes angen cymryd camau pellach.</p>
16	Glandŵr Cymru	--	The Trust has previously provided comments in respect of the NDF Call for Evidence (letter dated 06 March 2017) in which we, amongst other things, highlighted the need for an overarching approach to tourism across Wales in the NDF. Tourism is of course vital to economic prosperity and job creation in many parts of Wales, but it is a multi-faceted, cross-cutting theme, also important for the maintenance and upkeep of many of the nation's heritage and environmental assets, protection and enhancement of its landscape and promotion of Welsh culture. It is therefore recommended that protection and promotion of tourism in Wales should be considered as a key theme.	Un o 'themâu' yr adolygiad PPPyw: 'Sefydlu economi dwristiaeth gref, gan fanteisio'n sensitif ar asedau amgylcheddol, treftadaeth, a hamdden'. Caiff twristiaeth hefyd ei hystyried o fewn y prif faterion a chyfluoedd cynaliadwyedd allweddol o dan '1. Cymru ffyniannus'.	Nodir na fydd y Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig yn canolbwyntio ar fathau penodol o ddiwydiannau fel rhan o'r asesiad. Gallai hyn ffurfio rhan o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, felly nid oes angen cymryd camau pellach.

Rhif cynrychiolydd	Enw	Cefnogi'r cwestiwn?	Sylwadau Dyfnir yn Saesneg pan fydd yr ymateb wedi dod i law yn Saesneg yn unig	Ymateb	Newid arfaethedig
17	Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi	Ydyn, yn unol â sylwadau pellach	There appears to have been no consideration of private sector documents, with mainly only WG documents considered. An example of a private sector document which would appear relevant would be the 'Cardiff Capital Region City Deal Growth and Competiveness Commission Report & Recommendations'. This document also provides a helpful summary of a number of other private sector documents which could be considered.	Wedi'i nodi.	Adroddiad y Dinas-ranbarthau, Sbarduno Economi Cymru, Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd – adroddiad ac argymhellion a'r Strategaeth Twf ar gyfer Dinas-ranbarth Bae Abertawe wedi'u hychwanegu at yr adolygiad PPP a'r themâu cynaliadwyedd sy'n gysylltiedig ag amcanion y Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig yn Atodiad A.
18	Age Cymru	--	Given that 'Population ageing is a permanent feature of our modern society' ¹ we believe that the Welsh Government's Strategy for Older People in Wales 2013-2023 (and future reviews of the Strategy) should be taken into account in the review of relevant plans. Welsh Government (2013) The Strategy for Older People in Wales 2013-2023.	Cytuno.	Mae'r strategaeth ar gyfer pobl hŷn Cymru wedi'i hychwanegu at yr adolygiad PPP a'r themâu cynaliadwyedd sy'n gysylltiedig ag amcanion y Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig yn Atodiad A.
19	RTPI Cymru	--	It is unfortunate that recognition of the wider issues appear to be missing from the findings of the review of plans, programmes and environmental protection objectives. Infrastructure in particular does not appear to be recognised and should be mentioned under connectivity/communities.	Wedi'i nodi.	Ystyriwyd y seilwaith a ddarperir yn ei gyfanrwydd, ar draws yr asesiadau o faterion a chyfluoedd.
